Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **29 Mehefin 2010**

Teitl: **Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru**

Cafodd cynlluniau ar gyfer cyfundrefn addysg uwch (AU) yng Nghymru sy'n cyfrannu'n gryf at hybu cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog eu hamlinellu heddiw gan y corff sy'n cyllido prifysgolion.

Mae Strategaeth Gorfforaethol newydd CCAUC yn amlinellu ei ddisgwyliadau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru hyd 2013. Mae'n dymuno gweld prifysgolion a cholegau addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd fwy integredig ar draws rhanbarthau Cymru er mwyn gwella darpariaeth i bob dysgwr sy'n gallu elwa ar AU.

Hefyd hoffai'r cyngor cyllido weld gwell perfformiad ymchwil, ar ffurf mwy o ymchwil o safon ryngwladol a chysylltiadau cryfach â defnyddwyr a buddiolwyr eraill.

Dywed CCAUC ei fod yn credu bod gormod o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ni allu gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol posibl mewn byd hynod o gystadleuol. Mae am weld llawer llai o sefydliadau, sydd mewn sefyllfa well i fentro, i wrthsefyll ergydion, ac i barhau'n arloesol yn y tymor hir.

Nod y Strategaeth yw rhoi ar waith strategaeth a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn cyflwyno fframwaith clir ar gyfer datblygu addysg uwch yng Nghymru. Mae ein Strategaeth

Gorfforaethol yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'r darparwyr yng Nghymru i gyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol* ac mae strwythur ein Strategaeth wedi'i seilio ar ei themâu allweddol.

"Rydym ni'n bwriadu gweithio gyda'r sefydliadau i adeiladu cyfundrefn addysg uwch o'r radd flaenaf yng Nghymru a fydd yn perfformio ar lefel uchel ac yn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, sy'n arbennig o bwysig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Rydym ni eisoes wedi dechrau targedu ein cyllid er mwyn gyrru nodau strategol yn eu blaen."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr: "Mae'r sefydliadau eisoes yn dangos eu hymrwymiad i weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwell cyfundrefn addysg uwch yng Nghymru drwy eu gwaith cychwynnol ar gyflwyno darpariaeth AU ranbarthol a fydd o les i ddysgwyr a chyflogwyr; eu gwaith ar y Coleg Ffederal ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg; Athrofa Blaenau'r Cymoedd y Prifysgolion; a chyd-fentrau ymchwil mawr diweddar, megis y Consortiwm Newid Hinsawdd. Caiff sefydliadau Cymru eu hannog i adeiladu ar ddatblygiadau o'r fath, ac i wneud y defnydd gorau posibl o'u cyllid i greu cyfundrefn addysg benigamp."

Nodiadau

CCAUC - cysylltwch ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu

029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Gwnawn ddefnydd strategol o'r adnoddau a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil safon uwch o'r ansawdd uchaf
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru
- sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar draws Cymru.

Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Mae **ein Strategaeth Gorfforaethol** yn cyflwyno ein hamcanion tymor canolig i dymor hir ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

Mae'n amlinellu sut y disgwyliwn i addysg uwch (AU) fynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru – cyfiawnder cymdeithasol ac economi bywiog – yn ystod y blynyddoedd i ddod, drwy'r themâu ehangu mynediad, profiad y myfyrwyr, sgiliau, trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o dargedau perfformiad ar gyfer y sector AU yng Nghymru sy'n cwmpasu, er enghraifft, ansawdd, mynediad i addysg uwch, cyflogaeth ac incwm.